OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2015 No. 1522

# Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Ffioedd am Geisiadau, Ceisiadau Tybiedig ac Ymweliadau Safle) (Cymru) 2015

**Enwi, cychwyn a chymhwyso**

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Ffioedd am Geisiadau, Ceisiadau Tybiedig ac Ymweliadau Safle) (Cymru) 2015, a deuant i rym ar 1 Hydref 2015.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

(3) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys—

(a) i geisiadau am ganiatâd cynllunio y tybir iddynt gael eu gwneud yn rhinwedd adran 177(5) o Ddeddf 1990 (rhoi neu addasu caniatâd cynllunio yn dilyn apelau yn erbyn hysbysiadau gorfodi)(**1**), mewn cysylltiad â hysbysiad gorfodi a ddyroddir ar neu ar ôl y dyddiad y daw'r Rheoliadau hyn i rym; a

(b) i'r ceisiadau a'r ymweliadau safle canlynol a wneir ar neu ar ôl y dyddiad y daw'r Rheoliadau hyn i rym—

(i) ceisiadau am ganiatâd cynllunio;

(ii) ceisiadau am gymeradwyaeth ar gyfer materion a gadwyd yn ôl(**2**);

(iii) ceisiadau o dan adran 191 o Ddeddf 1990 (tystysgrif o gyfreithlondeb defnydd neu ddatblygiad presennol)(**3**);

(iv) ceisiadau o dan adran 192 o Ddeddf 1990 (tystysgrif o gyfreithlondeb defnydd neu ddatblygiad arfaethedig)(**4**);

(v) ceisiadau am ganiatâd i arddangos hysbysebion;

(vi) ceisiadau o dan y Gorchymyn Datblygu Cyffredinol a Ganiateir, y cyfeirir atynt yn rheoliad 13;

(vii) ymweliadau safle â safle mwyngloddio neu safle tirlenwi;

(viii) ceisiadau o dan amod cynllunio; a

(ix) ceisiadau o dan adran 96A(4) o Ddeddf 1990 (pŵer i wneud newidiadau ansylweddol i ganiatâd cynllunio)(**5**).

(**1**) Diwygiwyd adran 177(5) gan adran 32 o Ddeddf Cynllunio a Digolledu 1991 (p. 34) a pharagraffau 8 a 24(3) o Atodlen 7 i'r Ddeddf honno a chan adran 123(1) a (6) o Ddeddf Lleoliaeth 2011 (p. 20).

(**2**) Diffinnir "reserved matters" yn adran 92(1) o Ddeddf 1990.

(**3**) Amnewidiwyd adran 191 gan adran 10(1) o Ddeddf Cynllunio a Digolledu 1991 (p. 34) ac fe'i diwygiwyd gan adran 124(3) o Ddeddf Lleoliaeth 2011 (p. 20) a chan adran 58(1) o Ddeddf Cartrefi Symudol (Cymru) 2013 (2013 dccc 6) a pharagraff 6(1) a (3) o Atodlen 4 i'r Ddeddf honno.

(**4**) Amnewidiwyd adran 192 gan adran 10(1) o Ddeddf Cynllunio a Digolledu 1991 (p. 34).

(**5**) Mewnosodwyd adran 96A gan adran 190(1) a (2) o Ddeddf Cynllunio 2008 (p. 29) ac fe'i diwygiwyd gan O.S. 2014/1770 (Cy. 182).